Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**
—
Welsh Parliament
**Senedd Commission**

Janet Finch Saunders AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Ein cyf: PO1064/ EJ/ST

19 Ionawr 2021

Annwyl Janet,

**Llythyr ynghylch deiseb P-05-1085 "Gwneud hyfforddiant gwrth-hiliaeth yn orfodol i bob Cynghorydd etholedig ac Aelod o'r Senedd yng Nghymru**"

Diolch am eich llythyr ynghylch y ddeiseb uchod.

Fel sefydliad, nid ydym yn goddef bwlio, aflonyddu na gwahaniaethu ar sail hil neu darddiad ethnig. Mae cydraddoldeb hiliol wedi'i ymgorffori yn Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant y Comisiwn a lle bo hynny'n berthnasol, o fewn ein polisïau pobl. Mae ein polisi Urddas a Pharch yn amlinellu ein hymrwymiad i gydraddoldeb hiliol. Mae'r Comisiwn yn darparu hyfforddiant i'w staff, yn hyrwyddo gweithgareddau codi ymwybyddiaeth ac mae ganddo rwydwaith staff sy'n cynnig cefnogaeth i gymheiriaid, cyfleoedd rhwydweithio a ffocws ar gyfer trafod materion sy'n effeithio ar Aelodau'r sefydliad sy'n bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME).

Fodd bynnag, ni all y Comisiwn orfodi unrhyw un o Aelodau etholedig y Senedd (nad ydynt yn weithwyr y Comisiwn) i ymgymryd â hyfforddiant, nac ychwaith unrhyw aelod o staff a gyflogir yn uniongyrchol gan Aelodau o'r Senedd. Mae'r Comisiwn yn ymgysylltu ag Aelodau a staff yn barhaus ynghylch anghenion hyfforddi ac yn ymdrechu i ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw.

Nid yw'r Comisiwn mewn sefyllfa i wneud sylwadau ar hyfforddiant ar gyfer Cynghorwyr etholedig.

Yn gywir,

Elin Jones AS
**Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Senedd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
[redacted]
[redacted]

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
[redacted]
[redacted]